Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Treganna
# Radnor Road
# Canton
# Cardiff
# CF5 1RB

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Cafodd yr ysgol gynradd sirol cyfrwng Cymraeg hon ei sefydlu ym 1987 yn yr adeilad presennol, gyda dim ond un dosbarth, fel un o grŵp o ysgolion dynodedig Cymraeg yn gwasanaethu dinas a sir Caerdydd.

Bellach, mae 208 o ddisgyblion ar y gofrestr wedi eu trefnu'n saith dosbarth yn yr ysgol. Mae pum dosbarth yn y prif adeilad, un dosbarth mewn caban, ac un dosbarth wedi ei leoli ar lawr uchaf ysgol sy'n rhannu'r safle gydag Ysgol Treganna.

Daw'r disgyblion bron i gyd o ardal Treganna yng Ngorllewin Caerdydd. Disgrifir yr ardal fel un nad yw'n llewyrchus nac o dan anfantais economaidd.

Ar hyn o bryd mae 14 disgybl ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig ac nid oes gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol.

Daw 59% o'r disgyblion o gartrefi lle mai Saesneg yw'r brif iaith; ar hyn o bryd, siarada tua 80% o'r disgyblion Gymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfwerth. Mae tua 15% o'r disgyblion yn hanu o gefndir ethnig.

Mae 2.88% o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 2006.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Treganna yn 2011-2012 yw £3,217 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghaerdydd yw £19,708 a'r lleiafswm yw £2,828. Mae Ysgol Gymraeg Treganna yn safle 78 o'r 116 ysgol gynradd yng Nghaerdydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Ym Mehefin 2011 pasiwyd cynlluniau ar gyfer ysgol newydd gan Gyngor Sir Caerdydd. Fe fydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladau ar safle newydd erbyn 2013.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol Treganna'n dda oherwydd:

- mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol, hyderus sy'n cyflawni safonau uchel yn gyson;
- mae bron pob un o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd diddordeb byw yn eu gwaith, ac yn gwrando ac ymateb yn ardderchog yn y sesiynau;
- mae ymddygiad disgyblion ar bob adeg yn arbennig o dda;
- yn gyffredinol, mae canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol un a chyfnod allweddol dau ar y lefelau disgwyliedig yn dangos cynnydd da a chyson;
- mae prosesau'r ysgol i adnabod, deall, ac ymateb i anghenion disgyblion yn rhagorol;
- mae cynlluniau gwaith yr ysgol yn sicrhau cynnydd a dilyniant effeithiol yng ngwaith disgyblion; ac
- mae athrawon yr ysgol yn ymroddgar iawn a'r addysgu'n dda gyda rhai nodweddion rhagorol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- o dan arweiniad y pennaeth, mae gan yr ysgol weledigaeth glir a chytûn ynglŷn a chyfeiriad a gwerthoedd yr ysgol;
- mae'r tîm rheoli yn cynnig arweinyddiaeth effeithiol yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol;
- mae cynlluniau strategol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau, lles a darpariaeth ar draws yr ysgol;
- mae safonau'r ysgol yn dangos cynnydd cyffredinol yn ystod y pum mlynedd diwethaf; ac
- mae'r cynllun gwella ysgol yn cysylltu'n glir â'r broses hunan arfarnu, ac yn adnabod blaenoriaethau priodol ar gyfer symud yr ysgol ymlaen.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 sicrhau bod canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn adlewyrchu safonau uchel y disgyblion mwyaf galluog;

A2 sicrhau bod yr ardal allanol yn cael ei threfnu'n addas ar gyfer gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen;

A3 cryfhau ròl strategol y corff llywodraethol wrth adnabod, a monitro, safonau a chyrhaeddiad yr ysgol; a

A4 sicrhau monitro mwy effeithiol o gynnydd blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol trwy arsylwadau gwersi.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i lunio astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion Ysgol Treganna yn gwneud cynnydd cadarn iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr cynyddol annibynnol, hyderus sy'n cyflawni safonau uchel yn gyson.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol dau, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'u dysgu eu hunain ar draws ystod eang o bynciau, ac yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd ei botensial llawn yn ystod gwersi ac yn eu llyfrau gwaith. Mae safonau'r plant mwyaf galluog yn uchel iawn ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd blwyddyn dau a blwyddyn chwech.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus iawn ar lafar yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant sgwrsio'n glir ac estynedig am eu gwaith ac yn anffurfiol mewn amrywiol sefyllfaoedd gan ddefnyddio geirfa gynyddol gyfoethog.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Yng nghyfnod allweddol dau, maent yn darllen yn rhugl, yn gywir ac yn ddeallus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant drafod cynnwys llyfrau'n effeithiol, mynegi barn amdanynt a thrafod eu hoff awduron.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru ysgrifennu'n estynedig i safon uchel mewn Cymraeg a Saesneg. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn daclus a threfnus, ac maent yn llwyddiannus iawn wrth ddefnyddio'u medrau allweddol mewn meysydd ar draws y cwricwlwm.

Mae canlyniadau asesiadau athro o'r lefelau disgwyliedig yng nghyfnod allweddol un (Lefel 2 neu uwch) mewn Cymraeg yn dangos cynnydd da a chyson dros gyfnod o bum mlynedd, tra bod safonau mathemateg a gwyddoniaeth yn gyson uchel. Mae canlyniadau'r ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru yn rheolaidd, ac yn sylweddol uwch na'r disgwyliadau. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, wrth gymharu ag ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf, tra bod perfformiad Cymraeg o fewn yr 50% isaf. Wrth gymryd y tri phwnc gyda'i gilydd, mae'r ysgol wedi bod ymhlith y 50% uchaf dros y bum mlynedd, ac eithrio 2009 pan ddisgynnodd i blith y 50% isaf.

Mae canlyniadau asesiadau athro o'r lefelau disgwyliedig yng nghyfnod allweddol dau (lefel 4 neu uwch) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn dangos cynnydd cyson a da dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae canlyniadau Saesneg dros y tair blynedd ddiwethaf yn rhagorol. Bu'r canlyniadau sylweddol uwch na'r disgwyliadau yn y cyfnod hwn. O'u cymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol wedi bod ymhlith y 25% uchaf mewn Saesneg yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn y 50% uchaf mewn

mathemateg, a disgynnodd Cymraeg a gwyddoniaeth i blith yr 50% isaf yn 2011. O gymryd perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd, bu'r ysgol ym mhlith yr 50% uchaf ers pedair blynedd.

Yng nghyfnodau allweddol un a dau, yr oedd canlyniadau asesiadau athro ar y lefelau uwch na'r disgwyl (lefel 3 ac uwch yng nghyfnod allweddol 1 a lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2) yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru.

Yn gyffredinol, nid oes patrwm o wahaniaeth cyflawniad rhwng bechgyn a merched ac eithrio yn y lefelau uwch mewn Cymraeg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol un, a mathemateg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da, ac yn llwyddo i gyrraedd y targedau a osodir ar eu cyfer. Mae disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, a'r rhai sy'n hanu o gefndir ethnig lleiafrifol, yn llwyddo i'r un graddau â gweddill disgyblion yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd diddordeb byw yn eu gwaith, ac yn gwrando ac ymateb yn ardderchog yn y sesiynau. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae ymddygiad disgyblion ar bob adeg yn arbennig o dda. Dangosant barch at ei gilydd ac at oedolion, ac maent yn cydweithio'n effeithiol iawn o fewn y dosbarth. Mae'r parch hwn i'w weld hefyd allan ar yr iard chwarae, ac amser cinio, ar waethaf y lle chwarae cyfyng.

Y lefelau presenoldeb diweddaraf yw 95.9% sydd yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol, ac yn gynnydd bach ar lefelau blaenorol yr ysgol. O'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf.

Mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn elwa'n fawr o weithgarwch i dyfu a choginio llysiau yn rhandir yr ysgol. Mae'r disgyblion i gyd yn mwynhau gwersi coginio rheolaidd, lle rhoddir pwyslais ar fwydydd iach.

Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach. Yn ogystal â gwersi addysg gorfforol, mewn canolfan hamdden leol, maent yn elwa o weithgareddau clybiau ar ôl ysgol, er enghraifft, y clwb pêl droed, a phêl rwyd. Maent hefyd yn mwynhau cymryd rhan mewn cystadlaethau gydag ysgolion lleol.

Mae disgyblion yn elwa o'r cyswllt agos gyda nifer o sefydliadau, asiantaethau, busnesau ac unigolion, sydd yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a phersonol. Mae'r cysylltiadau hyn yn eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol. Daw budd i'r disgyblion o gymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus mewn canolfannau o fewn y gymuned leol, a thu hwnt, er enghraifft gweithgareddau eisteddfod yr Urdd.

Trwy weithgareddau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco caiff disgyblion o bob oed ddylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio'n ofalus er mwyn darparu ystod eang o weithgareddau dysgu priodol i'r holl ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog yn eu herio a'u hymestyn yn effeithiol. Mae staff y Cyfnod Sylfaen yn cynllunio'n effeithiol ar y cyd i sicrhau dilyniant a pharhad o un flwyddyn i'r llall.

Mae cynlluniau'r ysgol gyfan, ynghyd â chynlluniau athrawon unigol, yn sicrhau fod datblygiad a dilyniant cadarn yn y medrau allweddol ar draws y cwricwlwm. Darpara'r athrawon gyfleoedd amrywiol i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau siarad, gwrando a darllen, ac mae systemau effeithiol iawn i dracio cynnydd. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol iawn o staff ategol i gefnogi darllen.

Gosoda'r athrawon waith cartref addas ar wefan yr ysgol, gyda chanllawiau Saesneg ar gyfer y rhieni. Mae hyn, ynghyd â'r defnydd ehangach o'r wefan i gefnogi dysgu, yn gryfder amlwg yn yr ysgol, ac yn cael ei ganmol yn fawr gan rieni.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn greiddiol i ethos yr ysgol ac yn treiddio drwy'r holl weithgareddau. Mae'r ysgol yn darparu cyfoeth o gyfleoedd i ddisgyblion berfformio a chystadlu, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm.

Darpara'r ysgol brofiadau da sy'n hyrwyddo gwybodaeth y disgyblion o ddatblygiadau cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Un nodwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw'r gwersi coginio yn yr adran iau, sy'n cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o fwyta'n iach a sut i baratoi bwyd, yn ogystal â gwella'u hymwybyddiaeth o ddiwylliannau a chyfnodau hanesyddol.

**Addysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae'r addysgu yn dda, gyda rhai agweddau rhagorol. Mae'r athrawon yn ymateb yn ddeallus iawn i anghenion y disgyblion ac yn y gwersi gorau mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu trwy wneud eu penderfyniadau eu hunain a gweithio'n annibynnol.

Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth dda o ofynion y cwricwlwm a strategaethau amrywiol i hybu annibyniaeth y disgyblion mewn sawl agwedd o'r cwricwlwm. Ym mron pob un o'r gwersi arsylwyd, roedd yr athrawon ac oedolion eraill yn ysgogi disgyblion drwy ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion hunanasesu'u gwaith a gwaith eu cymheiriaid. Mae prosesau asesu ar gyfer dysgu wedi'u gwreiddio'n dda yn yr ysgol, ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn gynyddol effeithiol ym mhob dosbarth.

Mae gan bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn ymroddgar iawn ac yn gweithio'n galed i sicrhau safonau uchel. Maent yn paratoi

tasgau sy'n addas ar gyfer yr ystod gallu ym mhob dosbarth, gan gynnwys gwaith ymestynnol a heriol sy'n bodloni anghenion y disgyblion mwy abl. Mae'r arfer o annog disgyblion i ddewis y dasg sydd fwyaf addas iddynt i'w gwblhau yn un o gryfderau'r addysgu ac yn rhoi cyfrifoldeb arnynt i herio eu hunain. Mae cyflymder y gwersi, cwestiynu treiddgar a brwdfrydedd yr athrawon yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at ddatblygu dysgwyr annibynnol. Mae staff cefnogol yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn yr holl ddosbarthiadau.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu effeithiol sy'n cofnodi cyrhaeddiad pob disgybl yn glir. Maent hefyd yn nodi cyfleoedd i ymestyn disgyblion mwy abl a thalentog. Fodd bynnag nid yw asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol yn cofnodi'n gywir safonau uchel y disgyblion mwyaf galluog.

Mae adroddiadau i rieni yn cwrdd â'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae hon yn ysgol gynhwysol iawn. Mae'r broses ffurfiol, dynn i adnabod, deall, ac ymateb i anghenion y disgyblion yn rhagorol. Cydweithia'r athrawon yn effeithiol iawn i ddefnyddio ystod eang o ddulliau a ffynonellau gwybodaeth i adnabod anghenion personol ac addysgol, ac maent yn ymateb yn amserol ac effeithiol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn llwyddo i dargedu cymorth a chefnogaeth yn effeithiol iawn

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys plant mwy abl a thalentog. Mae'r athrawon a'r cydlynydd anghenion addysgol arbennig yn adnabod anghenion yn fuan. Trwy asesiadau rheolaidd, cedwir golwg agos ar eu cynnydd a gosodir targedau gwella addas ar eu cyfer. Mae gan rieni rôl weithredol yn yr holl brosesau. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r staff ategol i gefnogi'r disgyblion hyn. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol megis cydlynydd partneriaeth yr Awdurdod, athrawon ymgynghorol a therapyddion galwedigaethol.

Fel rhan o'r cynllun Ysgolion Iach hyrwyddir byw'n iach. Mae'r cyngor ysgol yn weithredol ac yn dylanwadu ar agweddau o fywyd yr ysgol.

Mae addoli ar y cyd yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain a phobl eraill ac i drafod gwerthoedd megis dyfalbarhad a pharch.

Mae'r ysgol yn hybu agwedd bositif tuag at ymddygiad yn effeithiol a chaiff datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion ei ddatblygu'n dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd croesawgar, lliwgar a deniadol gydag ethos teuluol a diogel. Caiff yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac i holl feysydd y ddarpariaeth.

Mae'r arddangosfeydd yn bwrpasol a thrawiadol yn y neuadd ac yn y dosbarthiadau, ac yn cefnogi dysgu'r disgyblion. Mae adnoddau da yn y dosbarthiadau i ateb gofynion meysydd y cwricwlwm. Er bod cyflwr a diffyg lle yn yr adeilad yn destun

pryder i nifer o rieni a staff yr ysgol, nid yw'n cael effaith andwyol ar safonau'r dysgu a'r addysgu.  Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu da.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ystafelloedd dosbarth wedi eu trefnu'n dda ar y cyfan, ac mewn ffordd briodol, gydag ardaloedd dysgu wedi eu diffinio'n glir.  Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gwneud y defnydd gorau o'r ardal tu allan i sicrhau bod yr amgylchedd awyr agored yn cefnogi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Fe fanteisir ar wahanol ganolfannau lleol i sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gael gwersi addysg gorfforol a drama, ac i gymryd rhan mewn perfformiadau a phrofi gweithgareddau awyr agored.  Gwna'r ysgol ddefnydd da iawn o'r rhandir i addysgu disgyblion y Cyfnod Sylfaen am yr amgylchedd.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi ei pherchnogi'n llawn gan ddisgyblion, staff, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr.  Mae'r pennaeth a'r tîm rheoli, yn cynnig arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol.  Maent yn cyfleu disgwyliadau uchel ac yn herio staff yn gadarnhaol ac effeithiol.  Mae'r cynlluniau strategol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau, lles a darpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae'r drefn o rannu cyfrifoldebau yn effeithiol, gyda phob aelod o staff yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu tuag at agweddau o reolaeth ar draws yr ysgol.

Gwneir defnydd effeithiol o gyfarfodydd staff er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus y Cynllun Gwella Ysgol a delio gyda materion busnes yr ysgol.
Mae'r tîm rheoli yn defnyddio data'n effeithiol i fonitro perfformiad yr ysgol.

Caiff yr ysgol gefnogaeth dda gan y llywodraethwyr.  Maent yn gwybod yn dda am safonau cyflawniad disgyblion.  Maent yn barod i gefnogi'r ysgol fel ffrind beirniadol ac i ddwyn yr ysgol i gyfrif ar sail yr wybodaeth y maent yn ei derbyn.  Fodd bynnag, nid oes ganddynt wybodaeth ddigonol am y ddarpariaeth yn nosbarthiadau'r ysgol, na gwybodaeth benodol am bynciau'r cwricwlwm.  Nid yw eu cyfrifoldebau cwricwlaidd wedi datblygu'n ddigonol.

Mae blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cael eu hadnabod a'u cynnwys yn dda o fewn strategaethau gwella llythrennedd, egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, asesu ar gyfer dysgu a gweithgareddau cyfredol eraill sy'n deillio o flaenoriaethau'r cynllun gwella.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae gan arweinwyr yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol.  Gwneir defnydd effeithiol o ddata i fonitro cynnydd ac mae'r ysgol yn gofyn barn disgyblion, staff a rhieni/gofalwyr yn rheolaidd.  Mae cydlynwyr pwnc yn cymryd trosolwg o'u meysydd yn flynyddol ac yn bwydo canfyddiadau i staff.  Serch hynny, nid yw monitro gwersi yn digwydd yn ddigon rheolaidd ac ni roddir sylw digonol i'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn y gwersi.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn adnabod cryfderau a meysydd datblygu'n dda. Mae'r Cynllun Gwella Ysgol yn cysylltu'n glir â'r broses hunanarfarnu ac yn cynnwys blaenoriaethau sydd wedi eu hamserlennu'n effeithiol ac yn nodi'n glir ran pob aelod staff wrth ei weithredu. Mae'r meini prawf llwyddiant yn ffocysu'n dda ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhan o gymunedau dysgu a rhwydweithiau proffesiynol yn yr ysgol a thu hwnt sydd wedi cael effaith bositif ar les ac elfennau o gyflawniad disgyblion. Mae'r ysgol wedi chwarae rhan flaenllaw mewn sefydlu rhai ohonynt ac arwain ar arfer dda, er enghraifft, systemau tracio cyrhaeddiad a lles disgyblion. Bu aelodau o staff yr ysgol yn hyfforddi eraill yn y maes.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cadarnhaol gyda rhieni a gofalwyr, gyda gwefan yr ysgol yn adnodd ardderchog ar gyfer cysylltu, rhannu gwybodaeth, a hybu addysgu yn y cartref.

Mae trefniadau da wedi eu sefydlu gyda'r sefydliadau meithrin cyfagos ar gyfer croesawu disgyblion newydd i'r ysgol. Ceir cydweithio effeithiol iawn gyda'r ysgol uwchradd i sicrhau bod y disgyblion hŷn yn trosglwyddo yno'n llwyddiannus, a hefyd wrth gynllunio as asesu gwaith disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda cholegau hyfforddi athrawon a gofalwyr plant. Yn sgil datblygiadau ffederaleiddio diweddar, mae'r ysgol wedi ffurfioli trefniadau cydweithio effeithiol iawn gyda'r ysgol bartner, sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhan naturiol o'i chymuned a gwna'r ysgol ddefnydd helaeth a dychmygus o nifer o leoliadau i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Gwneir defnydd effeithiol o arian er mwyn sicrhau bod lefelau staffio'r ysgol yn briodol. Mae defnydd da yn cael ei wneud o arbenigeddau athrawon a chant eu hyfforddi'n drwyadl i allu cyflwyno holl agweddau'r cwricwlwm yn llwyddiannus.

Mae staff ategol yr ysgol yn rhan effeithiol o'r tîm ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar y dysgu ac addysgu.

Mae trefniadaeth staff hynod effeithiol yn eI lle yn sgil trefniadau ffederaleiddio'r ysgol gydag ysgol arall. Gwna athrawon ac arweinwyr ddefnydd da o amser digyswllt ar gyfer cynllunio a chyflawni dyletswyddau cwricwlaidd a rheolaethol.

Mae trefn rheoli perfformiad effeithiol ar gyfer staff dysgu sy'n arwain at dargedau pwrpasol. Nid oes trefn o reoli perfformiad ar gyfer staff ategol yn bodoli ar hyn o bryd.

Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei rheoli yn effeithiol. Mae'r ysgol yn llwyddo i dargedu'r cyllid sydd ar gael i ymateb i'r blaenoriaethau meysydd sy'n cael blaenoriaeth yn y Cynllun Gwella Ysgol.

Mewn perthynas â safonau canlyniadau asesiadau athrawon yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

**Cyfnod allweddol 1**

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn y dangosydd pwnc craidd (sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd) yn dangos cynnydd cyson dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae'r canlyniadau yn gyson tua pedwar pwynt canran yn uwch na chanlyniadau'r teulu, a thua deg pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd dros Gymru gyfan. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, bu'r ysgol yn yr 50% uchaf dros y pum mlynedd, ac eithrio yn 2009, pan oedd y canlyniadau ymhlith yr 50% isaf. Nid oes patrwm penodol o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched. Yn 2011 yr oedd perfformiad yn sylweddol uwch na'r disgwyl o fewn y teulu.

Mewn Cymraeg, wrth ystyried nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (Lefel 2 neu uwch) bu cynnydd cyffredinol dros bum mlynedd. Perfformiodd yr ysgol yn gyson tua thri phwynt canran yn uwch na chyfartaledd y teulu a phum pwynt canran uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Wrth gymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, bu perfformiad yr ysgol yn anghyson, gan ddisgyn yn 2011 i fod ymhlith yr 50% isaf. O fewn y teulu, roedd y perfformiad hwn yn sylweddol uwch na'r disgwyliad. Nid oes patrwm o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn a merched.

Bu dirywiad cyson yn ystod y pedair blynedd hyd at 2011 yn nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefelau uwch (Lefel 3 neu uwch) mewn Cymraeg. Erbyn 2011 roedd canlyniadau'r ysgol tua wyth pwynt canran yn is na pherfformiad y teulu, ond yn agos iawn at gyfartaledd Cymru gyfan. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol ymhlith yr 50% isaf. Yr oedd perfformiad yr ysgol yn agos i'r disgwyl o fewn y teulu, gyda'r merched yn perfformio'n sylweddol uwch na bechgyn yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

Mewn mathemateg, wrth ystyried nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (Lefel 2 neu uwch) bu cynnydd cyffredinol dros bum mlynedd, ac roedd canlyniadau 2010 a 2011 wedi cyrraedd 100%. Mae perfformiad yr ysgol yn gyson rhyw dri phwynt canran yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Yn 2010 a 2011, o'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol ymhlith y 25% uchaf ac yn sylweddol uwch na'r disgwyl o fewn y teulu.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, amrywiol fu'r canran o ddisgyblion a gyrhaeddodd y lefelau uwch (Lefel 3 neu uwch) mewn mathemateg. Er fod tuedd gyffredinol i'r perfformiad fod yn uwch na chyfartaledd y teulu dros gyfnod, yr oedd y canlyniadau yn 2011 yn sylweddol is, er yn gyfartal â chyfartaledd Cymru. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol ymhlith yr 50% isaf. Yr oedd perfformiad yr ysgol yn agos i'r disgwyl o fewn y teulu, gyda thuedd i ferched berfformio'n uwch na bechgyn cyn 2011.

Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau disgwyliedig (Lefel 2 neu uwch) yn gyson uchel, ac yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Yn 2010 a 2011 roedd y canlyniadau yn 100%, ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Yn 2011, roedd perfformiad yr ysgol yn sylweddol uwch na'r disgwyl o fewn y teulu, ac nid oes gwahaniaeth yng nghyflawniadau bechgyn a merched.

Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, amrywiol fu'r canran o ddisgyblion a gyrhaeddodd y lefelau uwch (Lefel 3 neu uwch) mewn gwyddoniaeth. Er bod tuedd gyffredinol i'r perfformiad fod yn uwch na chyfartaledd y teulu dros gyfnod, yr oedd y canlyniadau yn 2011 yn is na'r cyfartaleddau teulu a Chymru. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol yn 2011 ymhlith yr 50% isaf. Yr oedd perfformiad yr ysgol yn agos i'r disgwyl o fewn y teulu. Mae merched wedi cyflawni'n uwch na bechgyn yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

**Cyfnod allweddol 2**

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn y dangosydd pwnc craidd (sef Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd) yn dangos cynnydd cyson dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae'r canlyniadau yn gyson tua phum pwynt canran yn uwch na chanlyniadau'r teulu, ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd dros Gymru gyfan. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, bu'r ysgol yn yr 50% uchaf dros y pedair blynedd ddiwethaf. Nid oes patrwm cyson o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched, er bod merched wedi perfformio'n uwch na bechgyn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn 2011 yr oedd perfformiad yr ysgol yn sylweddol uwch na'r disgwyl o fewn y teulu.

Mewn Saesneg, wrth ystyried nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (Lefel 4 neu uwch) bu safon y perfformiad yn gyson uchel, gan gyrraedd 100% am y tair blynedd ddiwethaf. Perfformiodd yr ysgol yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Wrth gymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, bu perfformiad yr ysgol yn 25% uchaf ers tair blynedd. O fewn y teulu, roedd y perfformiad yn sylweddol uwch na'r disgwyl. Nid oes patrwm o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn a merched.

Bu dirywiad cyson yn ystod y pedair blynedd hyd at 2010 yn nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefelau uwch (Lefel 5 neu uwch) mewn Saesneg, gyda chynnydd yn 2011. Bu canlyniadau'r ysgol yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan yn ystod yr un cyfnod. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ymhlith y 25% isaf. Yr oedd perfformiad yr ysgol yn agos i'r disgwyl o fewn y teulu. Nid oes patrwm o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Mewn Cymraeg, wrth ystyried nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (Lefel 4 neu uwch) bu dirywiad cyson ers cyrraedd 100% yn 2009. Perfformiodd yr ysgol yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Wrth gymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, bu perfformiad yr ysgol o fewn y 25% uchaf yn 2009, gan ddisgyn i

fod ymhlith yr 50% uchaf am y ddwy flynedd ddilynol. O fewn y teulu, roedd y perfformiad 2011 yn sylweddol uwch na'r disgwyliad. Nid oes patrwm o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn a merched.

Bu dirywiad cyson yn ystod y pedair blynedd hyd at 2010 yn nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefelau uwch (Lefel 5 neu uwch) mewn Cymraeg, gyda chynnydd yn 2011. Bu canlyniadau'r ysgol yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan yn ystod yr un cyfnod. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ymhlith y 25% isaf. Yr oedd perfformiad yr ysgol yn agos i'r disgwyl o fewn y teulu. Nid oes patrwm penodol o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Mewn mathemateg, wrth ystyried nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (Lefel 4 neu uwch) bu cynnydd cyffredinol dros bum mlynedd. Mae perfformiad yr ysgol yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Yn 2010 a 2011, o'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ac yn sylweddol uwch na'r disgwyl o fewn y teulu. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, amrywiol fu'r canran o ddisgyblion a gyrhaeddodd y lefelau uwch (Lefel 5 neu uwch) mewn mathemateg, gyda dirywiad cyffredinol dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yr ysgol yn gyson sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol ymhlith yr 25% isaf yn 2010 a 2011. Yr oedd perfformiad yr ysgol yn agos i'r disgwyl o fewn y teulu, gyda thuedd i fechgyn berfformio'n uwch na merched.

Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau disgwyliedig (Lefel 4 neu uwch) tan 2011 yn gyson uchel, ac yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Bu dirywiad o 5% yn 2011. Yn 2009 a 2010 roedd y canlyniadau yn 100%, ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Yn 2011, cyflawnodd yr ysgol ymhlith y 50% isaf, ac roedd y perfformiad yn sylweddol uwch na'r disgwyl o fewn y teulu. Nid oes gwahaniaeth yng nghyflawniadau bechgyn a merched.

Yn gyffredinol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, dirywiodd y canran o ddisgyblion a gyrhaeddodd y lefelau uwch (Lefel 5 neu uwch) mewn gwyddoniaeth. Mae'r perfformiad yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol yn 2010 a 2011 ymhlith y 25% isaf. Yr oedd perfformiad yr ysgol yn agos i'r disgwyl o fewn y teulu. Nid oes patrwm o wahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Holiaduron disgyblion

Ymatebodd 98 o ddisgyblion i'r holiadur. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn credu bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae bron pob disgybl yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae llawer o'r disgyblion yn dweud bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu ofidio. Mae llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach ond tua hanner sydd yn dweud bod llawer o gyfleoedd am ymarfer corff rheolaidd yn yr ysgol. Cred llawer o'r disgyblion eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, a bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Maent yn dweud bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith. Ychydig dros hanner y disgyblion sy'n credu bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol, ac mae ychydig dros hanner hefyd yn credu nad yw pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

### Holiaduron rhieni

Derbyniwyd 18 o atebion i'r holiaduron rhieni. Dywedodd y rhan fwyaf o rieni bod eu plant yn hoffi'r ysgol, bod yr addysgu'n dda a bod staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a gwneud eu gorau. Maent yn credu bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a dywedodd pob rhiant bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn credu bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Yr oedd pob un yn credu bod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r cam nesaf o addysg. Mae llawer o'r rhieni'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, ac yn dweud i'w plant gael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yno. Maent yn dweud bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol, a bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Cred llawer o'r rhieni hefyd fod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch, bod eu plant yn cael eu hannog i gadw'n iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda, a bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Yn ogystal, credant fod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol. Ychydig dros hanner y rhieni sy'n dweud iddynt gael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Tua'r un nifer sy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem ac sy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Stella Gruffydd | Arolygydd Tîm |
| Eirian Youngman | Arolygydd Lleyg |
| Meriel Parry | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhys Harries | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.